TOMATOS WEDI'U POBI AR DOST

Camau

1. Cynheswch y popty i wres 190°C/Ffan 170°C/Marc nwy 5.

2. Gosodwch y tomatos ar dun pobi. Gorchuddiwch y tomatos mawr a bach gyda'r perlysiau, y syfi (chives) a'r pupur du. Rhostiwch y cyfan am 10 munud cyn rhoi'r briwsion bara a'r caws parmesan ar eu pennau. Rhostiwch am 5 munud arall.

3. Tostiwch y bara. Rhowch y tost ar blât cyn rhannu'r tomatos rhwng y 2 ddarn o dost.

Cynhwysion

4 tomato mawr wedi'u haneru
2 lond llaw o domatos bach wedi'u haneru
1/2 llwy de o berlysiau cymysg
1 llwy de o syfi (chives)
1 llwy fwrdd o friwsion bara
2 llwy de o gaws parmesan
2 dafell o fara blawd gwenith cyflawn neu graneri
Pinsiad o bupur du